Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad	:	14 Hydref 2010
Presennol	:	Dr. Llion Jones (Cadeirydd), Miss Tegau Andrews, Dr. Andrew Davies, Dr. Eryl Wynn Davies, Dr. Peredur Davies, Mr. Hefin Francis, Dr. Lowri Hughes, Dr. Jerry Hunter, Dr. Dei Huws, Dr. Llion Iwan, Mrs. Bethan Wyn Jones, Mr. Dewi Wyn Jones, Miss Eirian Jones, Miss Sioned Medi Jones, Dr. Eifiona Thomas Lane, Dr. Gwyn Lewis, Mrs. Pauline Loftus, Mr. Eilir Hedd Morgan, Dr. Delyth Morris, Mrs. Delyth Murphy, Mr. Gerwyn Owen, Dr. Sara Parry, Mr. Huw Pritchard, Mr. Stephen Rees, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Dr. Paula Roberts, Dr. Richard G. Roberts, Miss Mair Rowlands, Dr. Pwyll ap Sion, Dr. Enlli Môn Thomas, Mr. Wyn Thomas, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Miss Manon Wyn Williams, Miss Sharyn Williams, Dr. Einir Young, Miss Nia Young, Mr. Emyr Roberts (Ysgrifennydd), Dr. Ioan Matthews (Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg).
Ymddiheuriadau:		Dr. Jason Walford-Davies, Mr. Ifor Gruffydd, Mr. David James, Mr. Malcolm John, Mr. Dyfrig Jones, Ms. Gwenda Rhian Jones, Dr. Manon Wyn Jones, Mr. Julian Andrew Owen, Dr. Angharad Price, Ms. Angharad Rhisiart, Mrs. Anwen Roberts, Mr. Euryn Roberts, Mrs. Gwenan Williams, Dr. Prysor Williams, Miss Sarah Williams.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Dr. Peredur Davies, Mr. Hefin Francis, Mr. Eilir Morgan, Mr. Gerwyn Owen, Mr. Huw Pritchard, Dr. Richard Roberts, Miss Manon Wyn Williams a Miss Nia Young i'w cyfarfod cyntaf o'r Ysgol. Estynnwyd croeso arbennig i Miss Mair Rowlands a Miss Sharyn Williams yn rhinwedd eu swyddogaeth fel cynrychiolwyr UMCB ac Undeb y Myfyrwyr.

2. LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchodd y Cadeirydd Dr. Jerry Hunter ar ei lwyddiant yn ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy eleni.

3. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod o'r Ysgol a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2010 fel cofnod cywir.

4. MATERION YN CODI

1. Eitem 4 (ii) Bwrsariaethau

Adroddwyd nad yw'n fwriad gan y Brifysgol gynnig bwrsariaethau i fyfyrwyr ôl-radd ond bod rhyddid i ysgolion unigol eu cynnig o'u hadnoddau eu hunain. Fodd bynnag bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sefydlu cynllun ysgoloriaethau ôl-radd a fydd yn agored i unrhyw gwrs meistr sy'n cyrraedd trothwy penodol o gredydau cyfrwng Cymraeg. **Cytunwyd** cefnogi'n ffurfiol yr angen i sefydlu Cynllun Ysgoloriaethau Ôl-radd o fewn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2. Eitem 6 Yr Wythnos Groeso

Adroddwyd bod nifer o ymdrechion gwahanol wedi'u gwneud i rannu gwybodaeth i fyfyrwyr am fodiwlau cyfrwng Cymraeg ac am y bwrsariaethau. Cafwyd digwyddiad ar ddydd Mawrth yr Wythnos Groeso ym Mar Uno ar Safle'r Ffriddoedd. Yn anffodus roedd hyn wedi cyd-daro gyda Ffair Fodiwlau yn Neuadd Pritchard Jones. Cafwyd cefnogaeth dda gan aelodau'r staff ond roedd niferoedd y myfyrwyr yn siomedig. Roedd y digwyddiad wedi'i hysbysebu'n eang ac nid oes eglurhad clir am ddiffyg ymateb y myfyrwyr. Nodwyd hefyd nad oedd darpariaeth gyfatebol i fyfyrwyr ôl-radd Cymraeg eu hiaith. **Cytunwyd**:

(i) ei bod yn holl bwysig i fyfyrwyr newydd gyfarfod staff yn ystod yr wythnos gyntaf ac mewn un ystafell fel Neuadd Powis.
(ii) cyfeirio'r holl fater i sylw TASIG. (**Gweithredu: LlJ).**

3. Eitem 8 Capio Niferoedd Myfyrwyr

Adroddwyd y cafwyd trafodaeth gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) a nodwyd bod y Cyngor Cyllido yn cymryd i ystyriaeth yr angen warchod nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n sicr ar hyn o bryd beth fydd y nifer myfyrwyr ar gyfer 2011/2012. **Cytunwyd** gwahodd yr Is-ganghellor i roi cyflwyniad i gyfarfod nesaf yr Ysgol. **(Gweithredu: LLJ).**

5. MATERION Y CADEIRYDD

1. Penodi Dirprwy Is-ganghellor (cyfrwng Cymraeg a Chysylltiadau gyda'r Gymuned)

Adroddwyd bod manylion llawn ar gyfer y swydd Dirprwy Is-ganghellor (cyfrwng Cymraeg) i'w gweld ar wefan y Brifysgol. Mae'r dyddiad cau ar 22 Hydref a gobeithir derbyn nifer dda o geisiadau cryf.

2. Neuadd John Morris Jones

Adroddwyd bod y myfyrwyr bellach wedi symud i'r neuadd newydd yn adeiladau Bryn Dinas a Tegfan ar Safle Ffriddoedd. Roedd y symud wedi bod yn weddol ddidrafferth ac maent yn gwerthfawrogi'r adnoddau gwell ond yn gweld eisiau'r ymdeimlad o gymuned. Adroddwyd bod Neuadd Tegfan yn llawn ynghyd â phum

llawr allan o wyth yn Neuadd Bryn Dinas. O gofio'r amheuon a fynegwyd ynghylch y symud, cytunwyd bod y niferoedd yn rhai calonogol.

Fodd bynnag, adroddwyd na chafwyd unrhyw symud ar y bwriad i greu cyswllt rhwng y ddau adeilad. Cafwyd gwybod y bydd y Pwyllgor Gweithredu yn ystyried tri opsiwn yn ei gyfarfod yr wythnos nesaf, sef llwybr, llwybr gyda tho neu gyswllt wedi'i adeiladu o friciau. Byddant hefyd yn ystyried yr angen i ddatblygu'r ystafell gyffredin.

3. Yr Eisteddfod Genedlaethol

Adroddwyd bod stondin y Brifysgol eleni yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy wedi bod yn llwyddiant er iddi fod ddwy uned yn llai. Cafwyd digonedd o weithgareddau amrywiol trwy gydol yr wythnos a niferoedd da o ymwelwyr ar y stondin.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm yn yr Adran Farchnata am eu gwaith ac am lwyddo i gynnal y fath fywiogrwydd ar y stondin.

4. Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol

Adroddwyd bod y cyfnod ymgynghori ar y cynlluniau datblygu pynciol unigol wedi dod i ben. Nodwyd na chafwyd llawer o ymateb o Fangor, ond awgrymwyd bod hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod ysgolion academaidd Bangor wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o baratoi'r cynlluniau yn y lle cyntaf.. Diolchodd Dr. Matthews am y sylwadau a nododd bod panel wedi eu trafod ddoe ac y bydd papur yn cael ei gyflwyno i sylw'r Grŵp Sector.

5. Cymrodoriaethau ac Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg Cyfredol

Amlinellwyd y sefyllfa bresennol o safbwynt deiliaid y cymrodoriaethau ac ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg, gan dynnu sylw penodol at y rhai hynny oedd wedi'u dyfarnu ar gyfer 2010/11.

Cymrodoriaethau

2008/09	
Dr Sara Elin Roberts	Y Gyfraith
Dr Paula Roberts	Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol
2009/10	
Dr Andrew Davies	Cemeg
Dr Peredur Davies	Ieithyddiaeth
Ms Pauline Loftus	Addysg
2010/11	
Dr Manon Wyn Jones	Seicoleg

Ysgoloriaethau

2005/06	
Dr Owain Llwyd	Cerddoriaeth
2006/07	
Nia Griffith	Seicoleg
Menna Wyn	Ieithoedd Modern
2007/08	
Enlli Haf Huws	Cemeg
Gwawr Ifan	Cerddoriaeth
Ruth Wyn Williams	Gwyddorau Iechyd
2008/09	
Edith Gruber	Ieithoedd Modern
Siân Wynn Lloyd	Addysg
Eilir Hedd Morgan	Gwyddorau Eigion
Gerwyn Owen	Diwydiannau Creadigol
Dewi Huw Owen	Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol
Euryn Roberts	Hanes
2009/10	
Huw Pritchard	Y Gyfraith
Thomas Christy	Gwyddorau Cyfrifiadurol
2010/11	
Manon Wyn Williams	Cymraeg
Owain Jones	Hanes
Julian Owen	Gwyddorau Chwaraeon
Nia Young	Addysg

6. Project Cyfoethogi'r Cyfrwng Cymraeg

Adroddwyd bod y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysgu a Dysgu) wedi sefydlu project ar gyfer cyfoethogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae eisoes wedi ymweld â'r holl golegau i drafod ei syniadau. Yn barod sefydlwyd tri tharged.
(i) datblygu dau neu dri chwrs newydd;
(ii) buddsoddi mewn staff lefel uwch i arwain datblygiadau;
(iii) hybu cyflogadwyaeth trwy ddarparu modiwlau lleoliad gwaith a phrofiad gwaith.

Adroddir ymhellach ar hyn yng nghyfarfod nesaf yr ysgol. **(Gweithredu LLJ).**

7. Niferoedd Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg

Derbyniwyd gan y Swyddfa Gynllunio ac Adnoddau ffigyrau rhagarweiniol ar gyfer cofrestriadau 2010/11. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn ymddangos fel pe bai 450 yn llai na'r llynedd, pwysleisiwyd nad oedd y ffigyrau yn cynnwys cofrestriadau Dysgu Gydol Oes nag ail garfan yr Ysgol Gwyddorau Iechyd. Nodwyd hefyd nad oedd gwybodaeth am statws ieithyddol nifer sylweddol o fyfyrwyr.

O safbwynt cofrestriadau ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg, adroddwyd bod gostyngiad o tua 20 CALl i'w weld gyda phatrymau cyfnewidiol ar draws gwahanol adrannau. Nodwyd, serch hynny, fod cynnydd clir yn y cofrestriadau ôl-radd cyfrwng Cymraeg.

6. "Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL" – CYFLWYNIAD GAN DR. IOAN MATTHEWS

1. Croesawodd y Cadeirydd Dr. Ioan Matthews, Cyfarwyddwr Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg i roi cyflwyniad ar 'Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol'. Mynegodd werthfawrogiad o'i barodrwydd i fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu amlinelliad o'r sefyllfa ddiweddaraf i aelodau'r ysgol.

   Eglurodd Dr. Matthews fod hwn yn gyfnod o newid mawr a fydd yn gweddnewid addysg cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd at y posibiliadau cyffrous a oedd yn wynebu'r rhai a oedd yn gweithio ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac ychwanegodd bod y misoedd diwethaf wedi esgor ar nifer o ddatblygiadau cadarnhaol. Mynegodd ei ddyhead i weld y sector yn symud ymlaen yn gytûn trwy gydweithrediad ac ymgynghori llawn. Aeth Dr. Matthews ymlaen i ymhelaethu ar y pwyntiau a ganlyn:

   - Y camau allweddol
   - Y cyfansoddiad
   - Enw'r Coleg
   - Llywodraethiant
   - Cyfarwyddwyr y Coleg
   - Grŵp Cynllunio Academaidd
   - Staffio a gweinyddiaeth
   - Cynllun Ysgoloriaethau israddedig
   - Prif Ysgoloriaethau'r Coleg
   - Ysgoloriaethau Astudio
   - Cynllun Staffio Academaidd
   - Y camau nesaf

2. Cafodd yr aelodau wedyn gyfle i gynnig sylwadau neu ofyn cwestiynau a nodwyd y pwyntiau a ganlyn.

   2.1 Pwy sydd yn gwarantu'r cwmni yn ariannol o feddwl mai pum mlynedd o arian sydd wedi'i glustnodi? Pwysleisiwyd mai'r cyllid newydd sydd am bum mlynedd yn unig a bod yr holl weithgareddau presennol, a fyddai'n trosglwyddo i'r Coleg, wedi eu cefnogi drwy arian parhaol (*recurrent* funding). Nodwyd mai'r prifysgolion sy'n darparu gwarant ariannol, ond fod hwnnw'n gyfyngedig..

   2.2 Ni fydd y Cyfarwyddwyr yn derbyn cyflog dim ond eu treuliau.

   2.3 Dylid pwysleisio na fydd y Coleg yn cynnig ei ddarpariaeth ei hun, ond yn gweithio drwy a chyda'r prifysgolion. Mater i'r Coleg fydd ystyried faint o bwyslais i'w roi ar raddau cyflawn a/neu nifer penodol o fodiwlau bob blwyddyn (o bosibl yn dibynnu ar y pwnc).

2.4 Cytunwyd cylchredeg y cyfansoddiad i'r aelodau. **(Gweithredu LLJ).**

2.5 Penderfynodd Bwrdd Gweithredu'r Coleg i ddynodi Caerfyrddin fel y prif leoliad gweinyddol gan fod adnoddau a staff y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg eisoes wedi eu lleoli yno ac na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol, na dyblygu gwaith.

2.6 Awgrymwyd y dylid cyfeirio cyfran o'r £1m a glustnodwyd at benodi staff academaidd i staff presennol yn y sefydliadau er mwyn rhyddhau mwy o'u hamser ar gyfer darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Byddai'r Coleg yn ystyried y pwynt allweddol yma yn fuan.

2.7 Gofynnwyd a oedd yna gynlluniau ar gyfer edrych am ffynonellau eraill o arian? Nodwyd bod y cyfansoddiad yn caniatáu hynny ond na fu unrhyw drafodaeth ar y mater hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr. Matthews am ei gyflwyniad gwerthfawr.

7. CWYNION GAN FYFYRWYR

Adroddwyd gan Swyddogion Undebau'r Myfyrwyr bod cwynion wedi'u derbyn gan fyfyrwyr bod rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg wedi'u canslo ar ddechrau'r tymor. Bydd yr Undeb yn ymchwilio i'r mater ac yn ceisio sicrhau y bydd cynrychiolaeth o'r myfyrwyr yn bresennol ymhob Bwrdd Astudiaethau.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Ysgol am 2.15 p.m. dydd Mercher, 26ain o Ionawr 2011 yn Siambr y Cyngor.